

**WYLFA SITE, ANGLESEY, WALES
(MAGNOX LIMITED)**

SAFLE WYLFA


**REPORT TO THE SITE STAKEHOLDER GROUP
SEPTEMBER 2019**

FOREWORD

This report is issued to the Site Stakeholder Group (SSG) to provide a brief summary of the regulatory activities of Natural Resources Wales (NRW) and the Environment Agency (EA) relating to the Wylfa nuclear site.

NRW is accountable to the Welsh Government for the environmental regulation of nuclear sites in Wales. NRW has a contractual arrangement in place which enables them to draw on the experience and resources of the Environment Agency's specialist Nuclear Regulation Group, to assist in the delivery of on-site inspection work and associated assessments.

We regulate the disposal of radioactive waste, operation of combustion plant, discharges to water and conventional waste. Please see Annex 1 for further information on our role.



Introduction

This report covers the period since the last Site Stakeholder Group (SSG) meeting on 31st January 2019 and highlights some key activities and areas of interest.

Discharges from Wylfa

All radioactive discharges from Wylfa remain well within the annual limits set in the site's radioactive substances environmental permit.

All non-radioactive discharges to water remain within the limits set in the site's water discharge permits.

Environmental monitoring

Magnox Ltd are required to carry out routine environmental monitoring under their radioactive substances permit. This involves taking a wide range of environmental samples from locations in the vicinity of the site and analysing them for radioactivity content.

There was a positive result for caesium-137 in crab sampled during the first quarter of 2019. While this is higher than previous results, concentrations are still very low (<1.5 Bq/kg) and there is no apparent reason for this increase. We will review data from the next quarter when it is available. Other results from the programme are in line with those from previous periods and show no cause for concern.

Discharges from Wylfa have reduced significantly since generation ceased at the end of 2015, and Magnox Ltd have recently reviewed their environmental monitoring programme. They propose to retain the range of sample types, but to reduce the number of sampling locations and/or frequency of sampling. We reviewed their proposals against our guidance¹ and made a few minor recommendations. We are content that the revised programme is in line with good practice, and proportional to the site's current and likely future radiological impact.

The Environment Agency also undertakes an independent programme of environmental monitoring, on behalf of NRW. This enables us to check the levels of radioactivity in the environment arising from permitted discharges from nuclear licensed sites, and so assess dose to the public to ensure that this remains within statutory limits. The results are widely reported, along with results from monitoring programmes around other UK nuclear sites, in the Radioactivity in Food and the Environment (RIFE) report. The latest report can be found at:

<https://www.gov.uk/government/publications/radioactivity-in-food-and-the-environment-rife-reports>

Routine regulatory matters

We have visited Wylfa on three occasions since our last report to the Site Stakeholder Group.

On 30 and 31 January, we discussed the radioactive substances permit review (see below) and the ILW characterisation project. Wylfa has relatively small volumes of Intermediate Level Waste (ILW) compared to other Magnox sites, but any ILW present on site will need to be identified, characterised, retrieved and packaged (or justified passively safe in the storage voids) before the site enters the planned Care &

¹ EA/SEPA/FSA (2010). Radiological Monitoring Technical Guidance Note 2: Environmental radiological monitoring

Maintenance period. A programme of work to confirm the inventory and characterise a number of ILW waste streams has started, and is expected to take 2-2.5 years to complete. This will involve developing sampling strategies and retrieving samples for analysis at off-site laboratories. ILW will need to be stored until a Geological Disposal Facility is available.

On 19 and 20 March, we discussed planning for decommissioning and carried out a routine compliance inspection on gaseous radioactive waste management. The current decommissioning strategy for Wylfa is to undertake risk-based deplanting during Care & Maintenance Preparations, followed by a period of Care & Maintenance prior to Final Site Clearance. Risk assessments will be undertaken over the next 2 years to identify which items of plant and equipment need to be removed. This will impact on the volume of waste (radioactive and non-radioactive) which is generated at the site now and in the future. We reviewed arrangements for sampling and analysis of gaseous waste discharged via the Pressure Vessel Ventilation systems, and preparation of the monthly discharge returns. We also inspected the Shielded Facilities Ventilation system and discussed the maintenance regime for this plant. We did not identify any non-compliances with the permit, but we note that Magnox Ltd have identified a number of minor issues with the condition of the ventilation ducting during recent inspections.

Magnox Ltd have systems in place for ensuring that work is planned effectively, that the hazards/risks are understood and appropriate controls are put in place to prevent incidents so far as is reasonably practicable. However, Wylfa has arrangements in place to enable a 24/7 response in case an incident does occur. Contingency arrangements will replace the current emergency scheme once the site enters the Care & Maintenance Preparations phase. We reviewed some of the new contingency arrangements, including plans for responding to incidents which could impact on the environment, and observed training for staff who have various roles in those arrangements on 5 and 6 June.

Defuelling continues to progress well, and is expected to be completed by the end of September 2019. Once the site has been verified fuel-free, it will transition to the next lifecycle phase known as Care & Maintenance Preparations. We have reviewed Magnox Ltd's proposals for changes to the organisational structure, which are expected to be implemented in November 2019. The number of staff at Wylfa will reduce significantly, particularly in Operations and Maintenance, as the volume of work carried out on the site reduces. In addition to the site-specific changes, Magnox Ltd will become a subsidiary of the NDA with effect from 31 August 2019.

We plan to carry out a solid radioactive waste management inspection in September, and also expect to discuss the proposed organisational changes in more detail to ensure that arrangements for complying with the environmental permits are not adversely affected.

Permitting

We have drafted a variation to the radioactive substances permit for Wylfa, which includes reduced notification levels for discharges and new conditions related to our recently-published guidance on management of radioactive waste from decommissioning. This is currently being reviewed and should be issued shortly.

The majority of the combustion installation at Wylfa has now been taken permanently out of service, and we have discussed what Magnox Ltd will have to do to surrender the environmental permit for the installation. Activities to remove any pollution risk will need to be completed, and Magnox Ltd will need to demonstrate that the site is in a satisfactory state. We expect an application for surrender to be submitted later in 2019/20.

Events & enforcement

We regularly review summaries of all events reported, and discuss those relevant to environmental compliance with Magnox Ltd as part of our routine regulation.

There have been no significant environmental events at Wylfa during this reporting period. We have not taken any enforcement action in the period since the last report.

Contact details

If you have any queries please contact the following:

Natural Resources Wales

Julia Frost

Arweinydd Tîm Rheoliad Diwydiant

Industry Regulation Team Leader

Cyfoeth Naturiol Cymru, Ffordd Caer, Bwcle, Sir Y Fflint, CH7 3AJ

/ Natural Resources Wales, Chester Road, Buckley, Flintshire CH7 3AJ

Ffôn / Tel: 03000 653859

E-bost: julia.frost@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Email: julia.frost@naturalresourceswales.gov.uk

Environment Agency

Rona Arkle

Nuclear Regulator

Nuclear Regulation Group (North), Environment Agency, Ghyll Mount, Gillan Way, Penrith, Cumbria CA11 9BP

Tel: 0203 025 5834

Email: rona.arkle@environment-agency.gov.uk

Annex 1: The role of Natural Resources Wales & the Environment Agency at nuclear sites

Operating and cleaning up nuclear sites generates radioactive and non-radioactive wastes. Our role as the environmental regulator is to ensure that the impact of those wastes on people and the environment, now and in the future, is as small as it can be. We also aim to prevent pollution, enhance the environment, and contribute to the sustainable development of the UK.

We inspect nuclear sites and assess proposals from operators, to provide assurance that the operator is complying with the limits and conditions of the permits we issue under the Environmental Permitting Regulations 2016 (as amended) and other relevant legislation and policy.

We supplement direct regulation with a partnership approach, working with the operators, the Nuclear Decommissioning Authority (NDA) and the Office for Nuclear Regulation (ONR) to solve problems jointly.

We expect operators to comply fully with all relevant legislative requirements and permits. If this does not happen, we will not hesitate to use our enforcement powers to ensure that action is taken to protect the environment or to secure compliance.

In summary our objectives are to:

- Ensure that environmental permits are up to date, flexible and fit for purpose and that they drive environmental improvement
- Assess compliance with the limits and conditions of the permits
- Reduce risks to the environment and avoid creating further legacies
- Ensure that integrated waste strategies continue to improve
- Ensure that solid waste is packaged in a form suitable for disposal
- Ensure that infrastructure and assets are maintained to minimise environmental impact
- Develop guidance on Best Available Techniques (BAT)
- Influence NDA so that they provide appropriate direction to operators to minimise waste and improve environmental outcomes
- Encourage integrated management of fuel and nuclear materials so as to prevent or minimise the potential environmental impacts
- Ensure land and groundwater contaminated by radioactivity or other pollutants is managed appropriately and protect land and groundwater from further contamination
- Monitor and assess organisational change to ensure that environmental performance is maintained

Natural Resources Wales and the Environment Agency have produced joint guidance on our requirements for decommissioning of nuclear sites, which can be found here:

<https://www.gov.uk/government/publications/the-decommissioning-of-nuclear-facilities>

**SAFLE WYLFA, YNYS MÔN, CYMRU
(MAGNOX LIMITED)**

SAFLE WYLFA


**ADRODDIAD AR GYFER GRŴP RHANDEILIAID Y SAFLE
MEDI 2019**

RHAGAIR

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Grŵp Rhanddeiliaid y Safle i ddarparu crynodeb byr o weithgareddau rheoleiddio Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas â safle niwclear Wylfa.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn atebol i Lywodraeth Cymru am y gwaith o reoleiddio safleoedd niwclear yng Nghymru. Mae trefn gytundebol ar waith sy'n galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ddefnyddio profiad ac adnoddau Grŵp Rheoleiddio Niwclear arbenigol Asiantaeth yr Amgylchedd i gynorthwyo wrth gyflawni gwaith arolygu ar y safle ac asesiadau cysylltiedig.

Rydym yn rheoleiddio'r trefniadau ar gyfer cael gwared ar wastraff ymbelydrol, gweithrediad y gwaith hysgi, gollyngiadau i ddŵr, a gwastraff confensiynol. Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth am ein swyddogaeth.



Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod ers cyfarfod diwethaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ar 31 Ionawr 2019, ac mae'n amlygu rhai gweithgareddau a meysydd o ddiddordeb allweddol.

Gollyngiadau o Wylfa

Mae'r holl ollyngiadau ymbelydrol o Wylfa'n dal i fod o fewn y cyfyngiadau blynyddol a osodwyd yn nhrwydded amgylcheddol sylweddau ymbelydrol y safle.

Mae'r holl ollyngiadau anymbelydrol i ddŵr yn dal i fod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn nhrwyddedau gollwng dŵr y safle.

Monitro amgylcheddol

Mae'n ofynnol i Magnox Ltd gynnal gwaith monitro amgylcheddol rheolaidd o dan ei drwydded sylweddau ymbelydrol. Mae hyn yn cynnwys cymryd amrediad eang o samplau amgylcheddol o leoliadau yng nghyffiniau'r safle a'u dadansoddi am gynnwys ymbelydrol.

Bu canlyniad positif wrth samplu crancod ar gyfer cesiwm-137 yn ystod chwarter cyntaf 2019. Er bod hyn yn uwch na'r canlyniadau blaenorol, mae'r crynodiadau o hyd yn isel iawn (<1.5 Bq/kg) ac nid oes rheswm amlwg dros y cynnydd hwn. Byddwn yn adolygu data'r chwarter nesaf pan fydd ar gael. Mae canlyniadau eraill ar gyfer y rhaglen yn unol â'r rheiny ar gyfer cyfnodau blaenorol ac nid ydynt yn dangos unrhyw reswm dros bryderu.

Mae gollyngiadau o Wylfa wedi lleihau'n sylweddol ers i'r gwaith cynhyrchu ddod i ben ddiwedd 2015, ac mae Magnox Ltd wedi adolygu ei raglen monitro amgylcheddol yn ddiweddar. Mae'r cwmni'n cynnig cadw amrediad y mathau o samplau ond lleihau nifer lleoliadau'r samplau a/neu amllder y gwaith samplu. Adolygom ei gynigion yn erbyn ein canllawiau,¹ gan wneud ambell fân argymhelliad. Rydym yn fodlon fod y rhaglen ddiwygiedig yn unol ag ymarfer da ac yn gymesur ag effaith radiolegol bresennol y safle ac effaith radiolegol debygol y safle yn y dyfodol.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn ymgymryd â rhaglen annibynnol o fonitro amgylcheddol ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn ein galluogi i wirio lefelau'r ymbelydredd yn yr amgylchedd sy'n deillio o ollyngiadau safleoedd niwclear a ganiateir, ac felly asesu'r dos y mae'r cyhoedd yn agored iddo er mwyn sicrhau ei fod yn aros o fewn trothwyon statudol. Mae'r canlyniadau'n cael eu hadrodd yn helaeth, ynghyd â chanlyniadau rhaglenni monitro safleoedd niwclear eraill y DU, yn yr adroddiad Ymbelydredd mewn Bwyd a'r Amgylchedd (RIFE). Gweler yr adroddiad diweddaraf ar:

<https://www.gov.uk/government/publications/radioactivity-in-food-and-the-environment-rife-reports>

Materion rheoleiddio arferol

Rydym wedi ymweld â Wylfa dair gwaith ers ein hadroddiad diwethaf i Grŵp Rhanddeiliaid y Safle.

Ar 30 a 31 Ionawr, trafodwyd yr adolygiad o drwyddedau sylweddau ymbelydrol (gweler isod) a'r prosiect nodweddu gwastraff lefel ganolradd. Mae gan Wylfa swm

1 Asiantaeth yr Amgylchedd / Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA) / Asiantaeth Safonau Bwyd (2010). Nodyn Canllaw Technegol Monitro Radiolegol 2: Monitro radiolegol amgylcheddol

gweddol fach o wastraff lefel ganolradd o'i gymharu â safleoedd eraill Magnox, ond bydd angen nodi, nodweddu, casglu a pheycynnu unrhyw wastraff lefel ganolradd ar y safle (neu ei gyfiawnhau'n oddefol ddiogel yn y bylchau storio) cyn i'r safle ddechrau ar ei gyfnod arfaethedig o ofal a chynnal a chadw. Mae rhaglen waith i gadarnhau'r stocrestr ac i nodweddu nifer o ffrydiau gwastraff lefel ganolradd wedi dechrau, ac mae disgwyl iddi gymryd rhwng dwy flynedd a dwy flynedd a hanner i'w chwblhau. Bydd hyn yn cynnwys datblygu strategaethau samplu a chasglu samplau i'w dadansoddi mewn labordai y tu hwnt i'r safle. Bydd angen storio'r gwastraff lefel ganolradd nes bod cyfleuster gwaredu daearegol ar gael.

Ar 19 a 20 Mawrth, trafodwyd y gwaith o gynllunio ar gyfer datgomisiynu a chynhaliwyd arolygiad arferol o gydymffurfiaeth ar y gwaith o reoli gwastraff ymbelydrol nwyol. Y strategaeth ddatgomisiynu bresennol ar gyfer Wylfa yw cynnal gwaith o ddatblannu sy'n seiliedig ar risg yn ystod y paratodau gofal a chynnal a chadw, gyda chyfnod o ofal a chynnal a chadw i ddilyn cyn y gwaith terfynol o glirio'r safle. Bydd asesiadau risg yn cael eu cynnal dros y ddwy flynedd nesaf er mwyn nodi pa eitemau o beiriannau ac offer y bydd angen eu gwaredu. Bydd hyn yn effeithio ar swm y gwastraff (ymbelydrol ac anymbelydrol) a gaiff ei greu ar y safle nawr ac yn y dyfodol. Adolygwyd y trefniadau ar gyfer samplu a dadansoddi gwastraff nwyol a ollyngir trwy systemau gwyntyllu'r llestrau gwasgedd, a pharatoi'r ystadegau misol ar ollyngiadau. Hefyd, archwiliwyd system wyntyllu'r cyfleusterau caeedig a thrafodwyd y drefn gynnal a chadw ar gyfer y peiriant hwn. Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r drwydded hon, ond sylwn fod Magnox Ltd wedi nodi nifer o fân broblemau â chyflwr y dwythellau gwyntyllu yn ystod archwiliadau diweddar.

Mae gan Magnox Ltd systemau ar waith ar gyfer sicrhau y caiff gwaith ei gynllunio'n effeithiol, y caiff peryglon/risgiau eu deall, ac y rhoddir rheolaethau priodol ar waith er mwyn atal digwyddiadau cyn belled â bod hyn yn rhesymol ymarferol. Fodd bynnag, mae gan Wylfa drefniadau ar waith i alluogi ymateb 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, os bydd digwyddiad. Bydd trefniadau wrth gefn yn disodli'r cynllun argyfwng presennol unwaith i'r safle ddechrau ar ei gyfnod paratoi gwaith gofal a chynnal a chadw. Adolygwyd rhywfaint o'r trefniadau wrth gefn newydd, gan gynnwys y cynlluniau ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau a allai effeithio ar yr amgylchedd, ac arsylwyd hyfforddiant ar gyfer y staff sydd ag amryw rolau yn y trefniadau hyn ar 5 a 6 Mehefin.

Mae'r gwaith o dynnu tanwydd yn parhau i fynd rhagddo'n ddiraferth, ac mae disgwyl ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi 2019. Unwaith y bydd y safle wedi'i ddilysu'n safle sy'n rhydd o danwydd, bydd y cylch bywyd nesaf yn dechrau, sef y paratodau gofal a chynnal a chadw. Rydym wedi adolygu cynigion Magnox Ltd ar gyfer newidiadau yn y strwythur sefydliadol, y mae disgwyl eu rhoi ar waith ym mis Tachwedd 2019. Bydd nifer y staff yn Wylfa'n lleihau'n sylweddol, yn enwedig o fewn timau gweithrediadau a chynnal a chadw, wrth i'r gwaith a gynhelir ar y safle leihau. Yn ogystal â newidiadau penodol i'r safle, daw Magnox Ltd yn is-gwmni o'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear o 31 Awst 2019.

Rydym yn bwriadu cynnal arolygiad cadarn o'r gwaith o reoli gwastraff ymbelydrol ym mis Medi, ac rydym hefyd yn disgwyl trafod y newidiadau sefydliadol arfaethedig yn fanylach er mwyn sicrhau na cheir effaith niweidiol ar y trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r trwyddedau amgylcheddol.

Trwyddedu

Rydym wedi drafftio amrywiad i'r drwydded sylweddau ymbelydrol ar gyfer Wylfa, sy'n cynnwys lefelau hysbysu is ar gyfer gollyngiadau ac amodau newydd sy'n ymwneud â'n canllawiau ar reoli gwastraff ymbelydrol yn sgil datgomisiynu, a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae hyn wrthi'n cael ei adolygu ac mae disgwyl ei gyhoeddi'n fuan.

Mae'r rhan fwyaf o'r gosodiad hylosgi yn Wylfa bellach wedi'i ddadosod yn barhaol, ac rydym wedi trafod yr hyn y bydd yn rhaid i Magnox Ltd ei wneud er mwyn ildio'r drwydded amgylcheddol ar gyfer y gosodiad. Bydd angen cwblhau gweithgareddau er mwyn dileu unrhyw risg o lygredd a bydd angen i Magnox Ltd ddangos bod y safle mewn cyflwr boddhaol. Rydym yn disgwyl derbyn cais am ildio yn ddiweddarach yn ystod 2019/20.

Digwyddiadau a chamau gorfodi

Rydym yn adolygu crynodebau o'r holl ddigwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn rheolaidd, ac yn trafod y rhai sy'n berthnasol i gydymffurfiaeth amgylcheddol â Magnox Ltd fel rhan o'n gwaith rheoleiddio arferol.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau amgylcheddol arwyddocaol yn Wylfa yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Nid ydym wedi cymryd unrhyw gamau gorfodi yn ystod y cyfnod ers yr adroddiad diwethaf.

Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r canlynol:

Cyfoeth Naturiol Cymru

Julia Frost

Arweinydd y Tîm Rheoleiddio Diwydiant

Industry Regulation Team Leader

Cyfoeth Naturiol Cymru, Ffordd Caer, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 3AJ

/ Natural Resources Wales, Chester Road, Buckley, Flintshire, CH7 3AJ

Ffôn / Tel: 03000 653859

E-bost: julia.frost@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

E-mail: julia.frost@naturalresourceswales.gov.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd

Rona Arkle

Nuclear Regulator / Rheoleiddiwr Niwclear

Nuclear Regulation Group (North), Environment Agency, Ghyll Mount, Gillan Way, Penrith, Cumbria, CA11 9BP

Ffôn: 0203 025 5834

E-bost: rona.arkle@environment-agency.gov.uk

Atodiad 1: Swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar safleoedd niwclear

Mae gweithredu a glanhau safleoedd niwclear yn cynhyrchu gwastraff ymbelydrol ac anymbelydrol. Ein swyddogaeth fel y rheoleiddiwr amgylcheddol yw sicrhau bod effaith y gwastraffau hynny ar bobl a'r amgylchedd, yn awr ac yn y dyfodol, cyn lleied ag y gall fod. Rydym hefyd yn anelu at atal llygredd, gwella'r amgylchedd, a chyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy'r DU.

Rydym yn archwilio safleoedd niwclear ac yn asesu cynigion gan weithredwyr er mwyn darparu sicrwydd fod y gweithredwr yn cydymffurfio â chyfyngiadau ac amodau'r trwyddedau rydym yn eu rhoi o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016 (fel y'u diwygiwyd) a deddfwriaethau a pholisïau perthnasol eraill.

Rydym yn ychwanegu at reoleiddio uniongyrchol drwy ddull partneriaeth, gan weithio gyda'r gweithredwyr, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a'r Swyddfa dros Reoli Niwclear er mwyn datrys problemau ar y cyd.

Rydym yn disgwyl i weithredwyr gydymffurfio'n llwyr â holl ofynion deddfwriaethol perthnasol ac unrhyw drwyddedau. Os na fydd hyn yn digwydd, ni fyddwn yn oedi cyn defnyddio ein pwerau gorfodi er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cymryd er mwyn gwarchod yr amgylchedd neu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

I grynhoi, ein hamcanion yw:

- Sicrhau bod trwyddedau amgylcheddol yn gyfredol, yn hyblyg ac yn addas i'r diben a'u bod yn sbarduno gwellhad amgylcheddol
- Asesu cydymffurfiaeth â chyfyngiadau ac amodau'r trwyddedau
- Lleihau'r risgiau i'r amgylchedd ac osgoi creu etifeddiaethau pellach
- Sicrhau bod strategaethau gwastraff integredig yn parhau i wella
- Sicrhau bod gwastraff soled yn cael ei becynnu mewn ffurf briodol ar gyfer ei waredu
- Sicrhau bod y seilwaith a'r asedau yn cael eu cynnal a'u cadw i leihau'r effaith ar yr amgylchedd
- Datblygu canllawiau ynglŷn â'r Technegau Gorau sydd ar Gael
- Dylanwadu ar yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear fel ei fod yn darparu cyfeiriad priodol ar gyfer gweithredwyr ynghylch sut i leihau gwastraff a gwella canlyniadau amgylcheddol
- Annog dulliau integredig o reoli tanwydd a deunyddiau niwclear er mwyn atal neu leihau'r effeithiau amgylcheddol posibl
- Sicrhau bod tir a dŵr daear sydd wedi cael eu halogi gan ymbelydredd neu lygryddion eraill yn cael eu rheoli'n briodol a sicrhau bod tir a dŵr daear yn cael eu gwarchod oddi wrth halogi pellach
- Monitro ac asesu newid sefydliadol er mwyn sicrhau bod perfformiad amgylcheddol yn cael ei gynnal

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynhyrchu canllawiau ar y cyd ar ein gofynion ar gyfer datgomisiynu safleoedd niwclear, y gellir eu gweld yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/the-decommissioning-of-nuclear-facilities>